**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2024.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**13 Tachwedd 2024**

**Disgrifiad**

1. Mae Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2024 (‘Rheoliadau 2024’) yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 (‘Rheoliadau 1992’). Mae Rheoliadau 1992 yn rhagnodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo’r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w talu gan awdurdodau bilio yng Nghymru i'r gronfa ardrethi annomestig.

2. Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio Atodlen 4 (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) i Reoliadau 1992 i sicrhau bod y sail ar gyfer cyfrifo cyfraniadau gan awdurdodau bilio yn dal yn -gyfoes ac i alluogi awdurdodau bilio i gyfrifo eu cyfraniadau ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26.- Mae'r ffigurau yn Atodlen 4 i Reoliadau 1992 yn cael eu diwygio bob blwyddyn. Mae Rheoliadau 2024 hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 1992 i drin rhyddhad yn ôl disgresiwn ar gyfer clybiau chwaraeon amatur cymunedol (‘CASCs’) yn yr un modd ag ar gyfer elusennau, at ddibenion cyfraniadau, ac i wneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad, i gywiro anghysondeb rhwng paragraff 3(1) a (4) o Atodlen 1, yn ogystal â diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol blaenorol.

**Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

3. Dim.

**Y cefndir deddfwriaethol**

4. Mae adran 4(1) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (‘Deddf 1988’), yn nodi'r pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â chyfrifo’r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i’w gwneud gan awdurdodau bilio i’r gronfa ardrethu annomestig.

5. Cafodd y pŵer i wneud rheoliadau o dan baragraffau 4(1) a (5) i o Atodlen 8 i Ddeddf 1988 ei drosglwyddo i’r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

6. Diwygiodd Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 Ddeddf 1988 gan ddarparu’n benodol bod y pwerau amrywiol yn Atodlen 8 o Ddeddf 1988 (gan gynnwys y rhai i wneud rheoliadau) wedi’u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

7. Mae adran 143(2) o Ddeddf 1988 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol mewn rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 1988 ac mae adran 236(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn darparu ymhellach y pwerau i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaeth ganlyniadol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf honno.

8. Mae Rheoliadau 2024 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

9. Mae paragraff 4(6) o Atodlen 8 i Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn i Reoliadau 2024 gael effaith ar gyfer blwyddyn ariannol benodol, fod rhaid iddynt

ddod i rym cyn 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid i Reoliadau 2024 ddod i rym, felly, erbyn 31 Rhagfyr 2024 fan bellaf, i gael effaith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

10. Yn ogystal â darparu ar gyfer y diweddariad blynyddol i'r ffigurau poblogaeth oedolion yn Atodlen 4 i Reoliadau 1992, mae Rheoliadau 2024 yn rhoi cyfle hefyd i wneud nifer bach o ddiwygiadau canlyniadol i Atodlenni 1 a 2 i Reoliadau 1992.

Diweddariad blynyddol i'r ffigurau poblogaeth oedolion

11. Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio dalu cyfraniadau ardrethu annomestig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ardrethi y maent yn eu casglu oddi wrth eiddo yn eu hardaloedd. Telir yr holl ardrethi a gesglir gan awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethi annomestig ynghyd â'r ardrethi a gesglir gan Lywodraeth Cymru oddi wrth dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog.

12. Dosberthir y refeniw cyfunol i gynghorau sir a bwrdeistref sirol a chomisiynwyr heddlu a throseddu Cymru ar sail ffigurau poblogaeth oedolion fel rhan o'r setliadau llywodraeth leol blynyddol. Mae awdurdodau bilio yn gwneud taliadau i'r gronfa yn seiliedig ar amcangyfrifon a gwblheir ganddynt cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r awdurdodau bilio wedyn yn cyflwyno ffurflenni wedi'u harchwilio ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ac yn cael taliadau oddi wrth Weinidogion Cymru neu'n gwneud taliadau ychwanegol i'r gronfa fel y bo'n briodol.

13. Effaith rheoliad 2(4) o Reoliadau 2024 yw diweddaru'r ffigurau poblogaeth oedolion drwy amnewid Atodlen 4 newydd i Reoliadau 1992. Mae'r ffigurau poblogaeth oedolion yn cael eu diweddaru'n flynyddol ac fe'u defnyddir i bennu trothwy i awdurdodau bilio gyfrifo eu cyfraniadau amodol i'r gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26.

Diwygiadau eraill

14. Mae rheoliadau 2(2) a (3) o Reoliadau 2024 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlenni 1 a 2 i Reoliadau 1992. Yr effaith a fwriedir yw egluro'r didyniadau rhagnodedig o gyfraniadau gan yr awdurdod bilio fel a ganlyn:
    - 25% o'r rhyddhad yn ôl disgresiwn a ddyfernir i elusennau neu CASCs o dan adran 47 o Ddeddf 1988;
    - 90% o'r rhyddhad yn ôl disgresiwn a ddyfernir i sefydliadau nid-er-elw o dan adran 47 o Ddeddf 1988.

15. Mae rheoliad 2(2)(a), (b), (d), (f), (g) a (h)(iii) yn diwygio paragraff 3 o Atodlen 1 i Reoliadau 1992 i drin rhyddhad yn ôl disgresiwn ar gyfer CASCs yn yr un modd ag ar gyfer elusennau, at ddibenion didyniadau o gyfraniadau. O ganlyniad i'r diwygiadau hynny, mae rheoliad 2(3)(a) a (b) yn diwygio paragraff 3 o Atodlen 2 i Reoliadau 1992 i sicrhau bod y rhagdybiaeth briodol o ran didyniadau yn cael ei chymhwyso mewn perthynas â CASCs wrth gyfrifo swm dros dro awdurdod bilio.

16. Mae rheoliad 2(2)(h)(i) yn diwygio anghysondeb rhwng y ffigur canrannol ym mharagraff 3(1)(b) a 3(4)(b) o Atodlen 1 i Reoliadau 1992. Mae hyn yn sicrhau bod

yr un didyniadau canrannol yn gymwys mewn perthynas â rhyddhad yn ôl disgresiwn a ddyfarnwyd yn y flwyddyn ddiweddaraf ac addasiadau a wnaed i'r hyn a ddyfarnwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

17. Mae rheoliad 2(2)(c), (e), (h)(ii) a (iv) yn dileu cyfeiriadau at y gofyniad nad yw hereditament yn hereditament a eithrir rhag paragraff 3(1) a (4) o Atodlen 1 i Reoliadau 1992. Darperir y gofyniad hwn gan adran 47(8A) o Ddeddf 1988, sy'n deillio o newidiadau a wnaed i adran 47 o Ddeddf 1988 gan Ddeddf 2011 ac, felly, nid oes angen ei ddatgan bellach o dan baragraff 3(1) a (4) o Atodlen 1 i Reoliadau 1992.

18. Mae rheoliad 2(3) yn gwneud diwygiadau i baragraffau 3 a 4 o Atodlen 2 i Reoliadau 1992 i ddileu cyfeiriadau at adran 47(2)(a) o Ddeddf 1988 gan fod Deddf 2011 yn diddymu'r adran honno.

**Ymgynghoriad**

19. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â Rheoliadau 2024. Mae'r ffigurau poblogaeth yn cael eu diweddaru’n flynyddol ac nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau polisi. Mae'r diwygiadau ychwanegol yn ategu effeithiau polisi arfaethedig newidiadau deddfwriaethol blaenorol. Mae Rheoliadau 2024 o ddiddordeb i'r awdurdodau bilio perthnasol yn unig ac nid oes ganddynt unrhyw effaith ar dalwyr ardrethi.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

20. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer Rheoliadau 2024 gan eu bod yn gwneud diwygiadau ffeithiol i Reoliadau 1992 i gadw'r sefyllfa bolisi bresennol a chan nad ydynt, wrth wneud hynny, yn newid effaith y polisi mewn unrhyw ffordd sylweddol. Mae hyn yn cydymffurfio â pharagraff 3.2 o'r polisi a nodir yng nghod ymarfer y Gweinidogion ar gyfer cyflawni Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.